**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol _Bro Plennydd__ Cynradd**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2** |
| Yn gyffredinol ar darws yr ysgol mae'r disgyblion yn derbyn cydbwysedd o brofiadau maent yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o fannau addoli, llyfrau Sanctaidd, Straeon crefyddol, arferion dathliadau a defodau, arweinwyr crefydd, rheolau crefyddol a'r cysylltiad rhwng crefydd a byd natur. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Dros y ddwy flynedd nesaf bydd yr ysgol yn canolbwyntio ar 'ymdrin â chwestiynau crefyddol' a'i osod fel sail i bob astudiaeth. Yn ogystal bydd yr ysgol yn canolbwytio hefyd ar fynegi ymatebion personol. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 2** |
| Mae gan yr ysgol egwyddoroion a gwerthoedd clir sy'n cael dylanwad ar fywydy a gwaith yr ysgol. Mae cyfnodau addoli ar y cyd yn cael eu cynllunio'n ofalus a'u monitro yn gyson er mwyn sicrhau ansawdd uchel. Mae llais y plentyn yn cael sylw drwy'r cynghorau dosbarth ac ysgol, drwy holiadur blynyddol ac amser cylch. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed ar feithrin cyfrifoldeb a chonsyrn at eu cyd ddisgyblion a rhoddir bri ar ddangos caredigrwydd at y naill a'r llall a datblygu sgiliau fel cyd chwarae hapus. Teimlir fod yr ysgol yn gweithio yn galed hefyd ar sicrhau cydraddoldeb rhyw a hiliol. Mae'r ysgol wedi cychwyn ar hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o agweddau amlddiwylliant ac yn rhoi sylw i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn ogystal â entrapanuriaeth a dealltwriaeth o'r byd gwaith. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Yn ystod y flwyddyn sy'n dod mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu rôl y plentyn yn ei ddysgu ymhellach. Yn ogystal drwy'r agwedd medrau meddwl yn Cwricwlwm 2008 mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu'r agwedd o ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau. Hoffem hefyd ehangu gweithgareddau allgyrsiol. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad:** | **Hydref 2008** |
| **Arwyddwyd: C Hughes (Pennaeth)** | |